



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2024 Rhif 501 (Cy. 79)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn darparu ar gyfer gwneud grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n ymgymryd â chyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 i ddarparu na fydd y grant sylfaenol na'r grant cyfrannu at gostau ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cynyddu uchafswm y benthyciad cyfrannu at gostau sydd ar gael i fyfyrwyr o'r fath o dan Reoliadau 2019, sy'n cyfateb i gyfanswm y cymorth sy'n daladwy i garfanau blaenorol o fyfyrwyr.

Mae rheoliad 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwys.

Mae rheoliad 7 yn diwygio'r amodau cymhwysio i gael y grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau er mwyn darparu na fydd myfyrwyr cymwys ond yn cymhwysio i gael cymorth o'r fath mewn perthynas â chyrsiau dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024.

Mae rheoliad 9 yn mewnosod rheoliad newydd 31ZA yn Rheoliadau 2019 i ddarparu ar gyfer swm y benthyciad cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau cyrsiau dynodedig ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'rffaith bod cymorth grant wedi ei ddileu ac yn cynyddu uchafswm y benthyciad cyfrannu at gostau sydd ar gael.

2024 No. 501 (W. 79)

EDUCATION, WALES

The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019 ("the 2019 Regulations") provide for the making of grants and loans to students who are ordinarily resident in Wales and undertaking postgraduate master's degree courses which begin on or after 1 August 2019.

These Regulations amend the 2019 Regulations to provide that the base grant and contribution to costs grant will not be available to students who begin courses on or after 1 August 2024. These Regulations also increase the maximum amount of contribution to costs loan available to such students under the 2019 Regulations, which corresponds to the total amount of support payable to previous student cohorts.

Regulation 1 provides for the coming into force and application of these Regulations.

Regulation 7 amends the qualifying conditions for the base grant and contribution to costs grant to provide that eligible students will only qualify for such support in relation to designated courses which begin before 1 August 2024.

Regulation 9 inserts a new regulation 31ZA into the 2019 Regulations to provide for the amount of contribution to costs loan payable to eligible students who begin designated courses on or after 1 August 2024. This provision reflects the removal of grant support and increases the maximum amount of contribution to costs loan available.

Mae rheoliad 12 yn mewnosod rheoliad newydd 36A yn Rheoliadau 2019 i ddarparu ar gyfer yr effaith ar hawlogaeth myfyriwr cymwys i gael cymorth wrth iddo ddod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys, pan fo'r myfyriwr cymwys yn dechrau cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'rffaith bod cymorth grant wedi ei ddileu a'r cynnydd yn uchafswm y benthyriad cyfrannu at gostau.

Mae rheoliadau 3, 7(2)(b) a (3)(b), 8(c), 10 a 13 yn hepgor darpariaethau diangen sy'n ymwneud â myfyrywyr gofal cymdeithasol ôl-raddedig. Mae swm y cymorth a roddir i fyfyrwyr o'r fath neu a delir iddynt o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn fwy nag uchafswm y benthyriad cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyrwyr o'r fath o dan reoliad 31A o Reoliadau 2019. Mae rheoliad 31A a darpariaethau cysylltiedig eraill o'r herwydd yn ddiangen.

Mae rheoliadau 4 a 6 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a wneir gan reoliadau 12 a 9 yn y drefn honno. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ddeilliadol i adlewyrchu'rffaith bod cymorth grant wedi ei ddileu. Mae rheoliadau 8 ac 11 yn datgymhwysu rheoliadau 31 ac 36 o Reoliadau 2019 yn y drefn honno mewn perthynas â chyrsiau dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 12 inserts a new regulation 36A into the 2019 Regulations to provide for the effect of an eligible student becoming or ceasing to be an eligible prisoner on their entitlement to support, where the eligible student begins a designated course on or after 1 August 2024. This provision reflects the removal of grant support and the increase in the maximum amount of contribution to costs loan.

Regulations 3, 7(2)(b) and (3)(b), 8(c), 10 and 13 omit redundant provisions relating to postgraduate social care students. The amount of support bestowed on or paid to such students under section 116(2)(a) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 exceeds the maximum amount of contribution to costs loan payable to such students under regulation 31A of the 2019 Regulations. Regulation 31A and other related provisions are therefore redundant.

Regulations 4 and 6 make amendments which are consequential on the amendments made by regulations 12 and 9 respectively. Regulation 5 makes incidental provision to reflect the removal of grant support. Regulations 8 and 11 disapply regulations 31 and 36 of the 2019 Regulations respectively in relation to designated courses beginning on or after 1 August 2024.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2024 Rhif 501 (Cy. 79)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024

<i>Gwnaed</i>		<i>11 Ebrill 2024</i>
<i>Gosodwyd</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd</i>
<i>Cymru</i>		<i>15 Ebrill 2024</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>8 Mai 2024</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a) a (2)(a), (b), (c) ac (i), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2).

Enwi, dod i rym a chymhwysedd

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024.

- (1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). Diwygiwyd adran 22(2)(i) gan Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 43(2). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) a (2)(b) ac (i) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) ac (c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydreddol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynllidol Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

2024 No. 501 (W. 79)

EDUCATION, WALES

The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

<i>Made</i>	<i>11 April 2024</i>
<i>Laid before Senedd Cymru</i>	<i>15 April 2024</i>
<i>Coming into force</i>	<i>8 May 2024</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22(1)(a) and (2)(a), (b), (c) and (i), and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1) and now exercisable by them(2).

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

- (1) 1998 c. 30; section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146(2)(a). Section 22(2)(i) was amended by the Higher Education Act 2004 (c. 8), section 43(2). See section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of “prescribed” and “regulations”.

(2) The functions of the Secretary of State in section 22(1)(a) and (2)(b) and (i) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales, so far as they relate to the making of provision in relation to Wales, by section 44 of the Higher Education Act 2004. Section 44 of that Act also provided that the functions in section 22(2)(a) and (c) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were to be exercised by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State, so far as they relate to the making of provision in relation to Wales. The function of the Secretary of State in section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998, so far as exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Mai 2024.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 13.

Diwygio rheoliad 10

3. Yn rheoliad 10(1), yn eithriad 9A, hepgorer y geiriau o "ac eithrio" hyd at y diwedd.

Diwygio rheoliad 17

4. Yn rheoliad 17(3), ar ôl "reoliad 36" mewnosoder "neu 36A".

Diwygio rheoliad 18

5. Yn rheoliad 18(2)(d), yn lle "datgan" rhodder "mewn perthynas â chwrs dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024, ddatgan".

Diwygio rheoliad 19

6. Yn rheoliad 19(1), ar ôl "reoliad 31(4)" mewnosoder "neu 31ZA(4)".

Diwygio rheoliadau 24, 24A a 26

7.—(1) Yn rheoliad 24 (y grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau), ar ôl "dynodedig" mewnosoder "sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024".

(2) Yn rheoliad 24A (amodau cymhwysyo i gael grant sylfaenol)—

- (a) ar ôl "chwrs dynodedig" mewnosoder "sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024";
- (b) hepgorer "oni bai bod y myfyriwr cymwys yn fyfyrwyr gofal cymdeithasol ôl-raddedig".

(2) These Regulations come into force on 8 May 2024.

(3) These Regulations apply in relation to the provision of support to a student in relation to a course which begins on or after 1 August 2024, whether or not anything done under these Regulations is done before, on or after that date.

Amendment of the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019

2. The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019(1) are amended in accordance with regulations 3 to 13.

Amendment to regulation 10

3. In regulation 10(1), in exception 9A, omit the words from "save" to the end.

Amendment to regulation 17

4. In regulation 17(3), after "regulation 36" insert "or 36A".

Amendment to regulation 18

5. In regulation 18(2)(d), at the beginning insert "in relation to a designated course beginning before 1 August 2024,".

Amendment to regulation 19

6. In regulation 19(1), after "regulation 31(4)" insert "or 31ZA(4)".

Amendments to regulations 24, 24A and 26

7.—(1) In regulation 24 (base grant and contribution to costs grant), at the end insert "beginning before 1 August 2024".

(2) In regulation 24A (qualifying conditions for base grant)—

- (a) after "designated course" insert "beginning before 1 August 2024";
- (b) omit "unless the eligible student is a postgraduate social care student".

(1) O.S. 2019/895 (Cy. 161); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2022/403 (Cy. 100) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17).

(1) S.I. 2019/895 (W. 161); relevant amendments are S.I. 2020/153 (W. 27); S.I. 2021/73 (W. 19); S.I. 2022/403 (W. 100) and S.I. 2023/87 (W. 17).

(3) Yn rheoliad 26 (amodau cymhwysio i gael grant cyfrannu at gostau)—

- (a) ar ôl “chwrs dynodedig” mewnosoder “sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024”;
- (b) hepgorer “neu’n fyfriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig”.

Diwygio rheoliad 31

8. Yn rheoliad 31 (swm y benthyciad cyfrannu at gostau)—

- (a) yn y pennawd, ar y diwedd mewnosoder “— cyrsiau sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024”;
- (b) o flaen paragraff (1) mewnosoder—
“(A1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024.”;
- (c) ym mharagraff (1) hepgorer “nad yw’n fyfriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig”.

Mewnosod rheoliad newydd 31ZA

9. Ar ôl rheoliad 31 (swm y benthyciad cyfrannu at gostau) mewnosoder—

“Swm y benthyciad cyfrannu at gostau — cyrsiau sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024”

31ZA.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), swm y benthyciad cyfrannu at gostau sydd ar gael i fyfriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yw £18,950.

(3) Pan fo carcharor cymwys yn gwneud cais am fenthyciad cyfrannu at gostau, ni chaiff swm y benthyciad fod yn fwy na’r lleiaf o’r canlynol—

- (a) y ffioedd sy’n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig, a
- (b) £18,950.

(4) Ac eithrio pan fo rheoliad 36A(6) a (7) yn gymwys, caiff myfriwr cymwys wneud cais i Weinidogion Cymru i ddiwygio swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae’r myfriwr wedi gwneud cais amdano, ar yr amod—

- (a) nad yw cyfanred symiau’r benthyciad cyfrannu at gostau y gwneir cais amdanynt yn fwy na’r symiau cymwys a nodir ym mharagraffau (2) a (3);
- (b) bod cais o’r fath yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 18(2).”

(3) In regulation 26 (qualifying conditions for contribution to costs grant)—

- (a) after “designated course” insert “beginning before 1 August 2024”;
- (b) omit “or a postgraduate social care student”.

Amendments to regulation 31

8. In regulation 31 (amount of contribution to costs loan)—

- (a) in the heading, at the end insert “— courses beginning before 1 August 2024”;
- (b) before paragraph (1) insert—
“(A1) This regulation applies in relation to a designated course beginning before 1 August 2024.”;
- (c) in paragraph (1) omit “who is not a postgraduate social care student”.

Insertion of new regulation 31ZA

9. After regulation 31 (amount of contribution to costs loan) insert—

“Amount of contribution to costs loan — courses beginning on or after 1 August 2024”

31ZA.—(1) This regulation applies in relation to a designated course beginning on or after 1 August 2024.

(2) Subject to paragraph (3), the amount of contribution to costs loan available to an eligible student in respect of a designated course is £18,950.

(3) Where an eligible prisoner applies for a contribution to costs loan, the amount of loan must not exceed the lesser of—

- (a) the fees payable in respect of the designated course, and
- (b) £18,950.

(4) Except where regulation 36A(6) and (7) applies, an eligible student may apply to the Welsh Ministers to amend the amount of contribution to costs loan for which the student has applied, provided that—

- (a) in aggregate, the amounts of contribution to costs loan applied for do not exceed the applicable amounts set out in paragraphs (2) and (3);
- (b) such application is made in accordance with regulation 18(2).”

Hepgor rheoliad 31A

10. Hepgorer rheoliad 31A.

Diwygio rheoliad 36

11. Yn rheoliad 36 (effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys)—

- (a) yn y pennawd, ar y diwedd mewnosoder “— cyrsiau sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024”;
- (b) o flaen paragraff (1) mewnosoder—
“(A1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024.”

Mewnosod rheoliad newydd 36A

12. Ar ôl rheoliad 36 (effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys) mewnosoder—

“Effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys — cyrsiau sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024”

36A.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo myfyriwr cymwys sy’n cael benthyciad cyfrannu at gostau yn dod yn garcharor cymwys ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) addasu taliad o'r benthyciad cyfrannu at gostau yn y dyfodol neu daliadau yn y dyfodol o randaliadau'r benthyciad cyfrannu at gostau, fel nad yw cyfanswm y cymorth a geir gan y myfyriwr cymwys yn fwy na'r swm y mae hawlogaeth gan y myfyriwr, fel carcharor cymwys, i'w gael o dan reoliad 31ZA(3), a

- (b) gwneud unrhyw daliadau yn y dyfodol o'r benthyciad cyfrannu at gostau yn unol â rheoliad 33(4).

(4) Mae paragraffau (5) i (7) yn gymwys pan fo carcharor cymwys sy'n cael benthyciad cyfrannu at gostau yn peidio â bod yn garcharor cymwys ac yn aros yn fyfyriwr cymwys, ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

Omission of regulation 31A

10. Omit regulation 31A.

Amendments to regulation 36

11. In regulation 36 (effect of becoming, or ceasing to be, an eligible prisoner)—

- (a) in the heading, at the end insert “— courses beginning before 1 August 2024”;
- (b) before paragraph (1) insert—
“(A1) This regulation applies in relation to a designated course beginning before 1 August 2024.”

Insertion of new regulation 36A

12. After regulation 36 (effect of becoming, or ceasing to be, an eligible prisoner) insert—

“Effect of becoming, or ceasing to be, an eligible prisoner — courses beginning on or after 1 August 2024”

36A.—(1) This regulation applies in relation to a designated course beginning on or after 1 August 2024.

(2) Paragraph (3) applies where an eligible student who is in receipt of a contribution to costs loan becomes an eligible prisoner and continues to undertake a designated course.

(3) The Welsh Ministers must—

- (a) adjust future payment of the contribution to costs loan or future payments of instalments of the contribution to costs loan, so that the total of the support received by the eligible student does not exceed the amount to which the student, as an eligible prisoner, is entitled to under regulation 31ZA(3), and
- (b) make any future payments of the contribution to costs loan in accordance with regulation 33(4).

(4) Paragraphs (5) to (7) apply where an eligible prisoner who is in receipt of a contribution to costs loan ceases to be an eligible prisoner and remains an eligible student, and continues to undertake a designated course.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw daliadau o'r benthyciad cyfrannu at gostau yn y dyfodol yn unol â rheoliad 33(2).

(6) Pan fo myfyriwr cymwys ("P") yn peidio â bod yn garcharor cymwys caiff P, yn ddarostyngedig i baragraff (7), wneud cais i swm y benthyciad cyfrannu at gostau gael ei gynyddu.

(7) Cyfrifir yr uchafswm cynnydd ym menthyriad cyfrannu at gostau P y caiff P wneud cais amdano o dan baragraff (6) drwy gyfeirio at y fformiwl a ganlyn—

$$(Q - F) \times \left(\frac{R}{T}\right)$$

pan fo—

Q yn gyfwerth â £18,950;

F yn gyfwerth â swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae P yn cymhwys i'w gael fel carcharor cymwys;

T yn gyfwerth â chyfanswm nifer y diwrnodau y mae'r cwrs dynodedig yn para;

R yn gyfwerth â nifer y diwrnodau o'r cwrs dynodedig sy'n weddill pan fydd P yn peidio â bod yn garcharor cymwys."

(5) The Welsh Ministers must make any future payments of the contribution to costs loan in accordance with regulation 33(2).

(6) Where an eligible student ("P") ceases to be an eligible prisoner P may, subject to paragraph (7), apply for the amount of contribution to costs loan to be increased.

(7) The maximum amount of the increase of P's contribution to costs loan for which P may apply under paragraph (6) is calculated by reference to the following formula—

$$(Q - F) \times \left(\frac{R}{T}\right)$$

where—

Q equals £18,950;

F equals the amount of contribution to costs loan for which P qualifies as an eligible prisoner;

T equals the total number of days of the duration of the designated course;

R equals the number of days of the designated course which remain when P ceases to be an eligible prisoner."

Diwygio Atodlen 1

13. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3(1), hepgorer y diffiniad o "myfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig".

Amendment to Schedule 1

13. In Schedule 1, in paragraph 3(1), omit the definition of "postgraduate social care student".

Lynne Neagle

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o
Weinidogion Cymru
11 Ebrill 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
11 April 2024

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£8.14

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/501>

ISBN 978-0-348-39560-0

A standard linear barcode representing the ISBN number 978-0-348-39560-0.

9 780348 395600